

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

**Ein Cynllun i Gyflawni Strategaeth
y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd
Cynulliad**

Chwefror 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

www.cynulliadcymru.org

gwybodaeth@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

**Ein Cynllun i Gyflawni Strategaeth
y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd
Cynulliad**

Chwefror 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi	2
Rhagoriaeth gwasanaethau a'u cyfuno i gefnogi Busnes y Cynulliad	3
Gwasanaethau dwyieithog gwell	4
Cynyddu'r graddau y mae pobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, yn ymwneud â gwaith y Cynulliad.....	4
Gwneud y gorau o'n Hystâd, yn enwedig y Senedd, a'i nodwedd o fod y prif leoliad i fywyd cyhoeddus Cymru	5
Sut y byddwn yn perfformio ac yn llwyddo.....	6
Cofnodi Perfformiad a Chostau	6
Rheoli Risg	7
Atodiad Un: Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16	8
Atodiad Dau: Strategaeth Comisiwn y Cynulliad a'i Blaenoriaethau ar gyfer y Pedwerydd y Cynulliad	10

Cyflwyniad

Nodau strategol

Nodau strategol Comisiwn y Cynulliad yw canolbwynt ein gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Ein nodau yw:

- Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
- Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru;
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Gellir gweld y manylion llawn am y nodau hyn yn Atodiad Un, gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn a ystyrir yn llwyddiant yn achos pob un ohonynt.

I gefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi yn y Cynulliad hwn – caiff y rhain eu nodi yn y papur hwn. Mae taflen sy'n cynnwys crynodeb o Strategaeth y Comisiwn a'i flaenoriaethau wedi'i hatodi yn Atodiad Dau.

Er mwyn cyflawni'r nodau strategol, mae angen inni hefyd barhau i ddarparu'r ystod lawn o weithgareddau busnes o ddydd i ddydd i safon uchel. Mae angen i Gynlluniau Gwasanaeth ac Adolygiadau Rheoli Perfformiad a Datblygiad ddisgrifio'r gweithgareddau, y gweithrediadau a'r prosiectau y mae eu hangen i gyflawni'r gweithgareddau busnes rheolaidd yn ogystal â'r gwaith ar y pump maes blaenoriaeth.

Adnoddau

Cadarnhaodd sefyllfa gyfansoddiadol newydd y Cynulliad o 2011 yr angen am gymorth seneddol o'r radd flaenaf. Mae strategaeth y Comisiwn o fuddsoddi ar gyfer y dyfodol, er gwaethaf y cefndir ariannol ac economaidd anodd, yn ein galluogi i gyflawni ar gyfer y Cynulliad heb amharu ar safon y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Ar ôl i gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2013-4 gael ei chymeradwyo, sy'n parhau i weithredu'r strategaeth dair blynedd ar gyfer 2012-15, bydd ein cyllideb yn sicrhau ein bod yn dal i fod mewn sefyllfa i ddarparu'r adnoddau priodol i wasanaethau ac i fuddsoddi mewn gwaith datblygu angenrheidiol. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y gyllideb y cytunwyd arni yn bris addas i'w dalu i ddarparu cymorth ar gyfer deddfu, craffu ar y Llywodraeth a chynrychiolaeth ddemocrataidd. Rhaid inni ddangos yn awr fod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar yr Aelodau.

Rhan bwysig o'r gwaith o ddefnyddio ein hadnoddau'n ddoeth yw sicrhau ein bod i gyd yn cyd-dynnu i gyflawni ein strategaeth. Bydd cyd-dynnu yn effeithiol yn cynnwys cydweithio, arweinyddiaeth bendant, cyfathrebu'n rhagorol â'n gilydd, blaenoriaethu ymdrechion yn effeithiol, a chanolbwyntio ar y cwsmer. Mae ein cyllideb yn ddigonol inni gyflawni ein cynlluniau, ond bydd yn rhaid inni ddewis yn glir yr hyn y gallwn ei wneud a'r hyn na allwn ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael inni. Mae hynny'n golygu efallai y bydd yn rhaid i rai pethau gael eu rhoi o'r neilltu er mwyn cyflawni yng nghyswllt y meysydd blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth hon.

Y tymor hwy

Bydd yn rhaid i'r broses o gynllunio ar gyfer y tymor hwy ystyried ffactorau allanol fel canlyniadau'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), y refferendwm yn 2014 ar annibyniaeth yn yr Alban, Etholiad Cyffredinol San Steffan yn 2015, yr hinsawdd economaidd, a phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi

I gefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi:

- Strategaeth TGCh y dyfodol, 2014 a thu hwnt
- Rhagoriaeth gwasanaethau a’u cyfuno i gefnogi Busnes y Cynulliad
- Gwasanaethau dwyieithog gwell
- Cynyddu’r graddau y mae pobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, yn ymwneud â gwaith y Cynulliad
- Gwneud y gorau o’n Hystâd, yn enwedig y Senedd, a’i nodwedd o fod y prif leoliad i fywyd cyhoeddus Cymru

Mae’r adran hon yn cynnwys disgrifiad o bob un o’r meysydd blaenoriaeth hyn, gan gynnwys pam y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau.

Strategaeth TGCh y Dyfodol, 2014 a thu hwnt

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae’r Comisiwn yn dymuno darparu gwasanaethau mwy hyblyg sydd wedi’u seilio ar angen defnyddwyr, darparu mwy o arloesedd a gwella bodlonrwydd defnyddwyr â TGCh. Rydym wedi penderfynu ymadael â’r trefniadau presennol lle y darperir gwasanaethau TGCh gan Atos drwy gyfrwng cytundeb Merlin Llywodraeth Cymru. Erbyn mis Gorffennaf 2014 fan bellaf, bydd y Comisiwn yn trosglwyddo i drefniadau newydd y bydd ganddo reolaeth lawn drostynt.

Beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni?

- trosglwyddo mewn modd didrafferth a di-dor o drefniadau cytundeb Merlin i’n gwasanaethau TGCh y tu hwnt i 2014;
- sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at y wybodaeth a’r gwasanaethau TGCh y mae eu hangen arnynt, lle bynnag y bônt, a bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno yn y fformat angenrheidiol;
- sicrhau bod pob defnyddiwr yn gallu dewis pa ddyfais y mae’n ei defnyddio;
- sicrhau bod gwasanaethau TGCh yn ei gwneud yn haws i bobl cydweithio a rhannu, a hynny mewn modd diogel a sicr;
- sicrhau bod asedau gwybodaeth yn cael eu rheoli’n effeithiol; bod gwybodaeth wedi’i strwythuro, yn cynorthwyo’r gwasanaethau busnes y mae angen y wybodaeth honno arnynt, yn gwella effeithlonrwydd ac yn werthfawr;
- sicrhau bod y model ar gyfer gwasanaethau TGCh wedi’i ddatblygu ar sail sicrhau gwerth i’r sefydliad am yr arian y mae’n ei wario; a bod y model hwnnw’n ymatebol, yn hyblyg, yn arloesol, ac yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y defnyddiwr;
- aros ar flaen y gad o ran datblygiadau technolegol arloesol yn ein gwasanaethau i’r cyhoedd, gan gynnwys y sianeli a ddefnyddiwn i ymgysylltu ac i gyfathrebu ynghylch gwaith y Cynulliad; a
- sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau TGCh rhagorol i gefnogi blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

Rhagoriaeth gwasanaethau a'u cyfuno i gefnogi Busnes y Cynulliad

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r busnes ffurfiol a gynhelir yn y Cyfarfod Llawn ac yn y pwyllgorau wrth wraidd yr hyn a wna'r Cynulliad fel deddfwrfa. Yno y caiff y Llywodraeth ei dwyn i gyfrif ac y caiff ei chynigion deddfwriaethol, ei syniadau o ran polisi, ei gwaith o gyflawni a'i phenderfyniadau eu gwella drwy waith craffu'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn o'r farn fod gwaith cyfuno a rhagoriaeth barhaus yng nghyswllt pob maes y mae staff y Comisiwn yn arbenigo ynddynt yn hollbwysig i gyflawni ei nod o ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf.

Beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni?

- newid cadarnhaol, a gaiff ei adlewyrchu yn adborth gan yr Aelodau, a hynny o ganlyniad i'r adolygiad a arweinir gan y Comisiwn o'r gefnogaeth a ddarperir i bwyllgorau;
- sicrhau bod busnes ffurfiol yn cael ei gefnogi ym mhob cam gan wybodaeth a chynngor o safon uchel;
- sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar anghenion yr Aelodau, rhagoriaeth ac effeithlonrwydd drwy ganfod pa wasanaethau y mae'r Aelodau'n dymuno'u cael gennym, a bod yn hyblyg wrth ddefnyddio ein hadnoddau i'w darparu;
- sicrhau bod Llywyddion, cadeiryddion pwyllgorau, Comisiynwyr a rheolwyr busnes yn cael cymorth eithriadol i gyflawni'r swyddi hyn;
- gweithio fel tîm integredig yng nghyswllt pob agwedd ar gymorth i fusnes y Cynulliad, gyda strwythur Cyfarwyddiaeth sy'n hwyluso hyn, fel y gellir defnyddio pob maes o arbenigedd perthnasol o'r cychwyn;
- dileu aneffeithlonrwydd yn y gwaith o ddarparu ein gwasanaethau i'r Aelodau, neu'r rhwystrau cysylltiedig;
- buddsoddi mewn datblygiadau technolegol er mwyn trawsnewid ein darpariaeth o wasanaethau dwyieithog, gan sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd;
- darparu gwasanaethau i'r Aelodau ac i'r cyhoedd sy'n eu galluogi i gyfathrebu â'r Cynulliad yn ein dwy iaith Swyddogol;
- sicrhau bod gennym dechnoleg a systemau i gefnogi ein prif swyddogaethau sy'n addas i'r diben ac y manteisir arnynt yn llawn i ddiwallu anghenion yr Aelodau a'r cyhoedd; a
- sicrhau ei bod yn hawdd ac yn ddiraffferth ymwneud â Busnes y Cynulliad, a bod gan bobl ddealltwriaeth well o'r Cynulliad.

Gwasanaethau dwyieithog gwell

Pam mae hyn yn bwysig?

Ein nod yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, lle y gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddewis gweithio neu gyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall, neu yn y ddwy iaith, a lle y mae defnyddio'r ddwy iaith yn destun balchder i bawb. Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 2012 yn gosod dyletswyddau ar Gomisiwn y Cynulliad i sicrhau y gellir ymwneud bob amser â thrafodion y Cynulliad yn unrhyw un o'r ieithoedd swyddogol - Cymraeg neu Saesneg. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi sut y bydd Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd – a'r gwaith y byddwn yn ei wneud i sicrhau ein bod yn parhau i godi'r safon i sefydliadau eraill ein hefelychu, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni?

- sicrhau bod ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn sail i'n gwaith o wella ein darpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn barhaus;
- sicrhau bod pob dinesydd ac Aelod Cynulliad yn gallu cael gwybodaeth am y broses ddemocrataidd, a chyfrannu'n llawn ati, yn ei ddewis iaith swyddogol – Cymraeg neu Saesneg;
- sicrhau bod staff y Comisiwn, ni waeth beth yw eu sgiliau iaith, wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a'u bod yn parchu hawl pobl i ddefnyddio'r naill iaith Swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy ohonynt; a
- sicrhau bod gwasanaethau, strategaethau a dyheadau'r Comisiwn bob amser yn adlewyrchu statws cyfartal ein Hieithoedd Swyddogol.

Cynyddu'r graddau y mae pobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, yn ymwneud â gwaith y Cynulliad

Pam mae hyn yn bwysig?

Er mwyn i wleidyddiaeth lwyddo, mae angen i etholwyr gymryd rhan ynddi. Mae'r Comisiynwyr wedi pwysleisio inni bwysigrwydd estyn allan y tu hwnt i furiau'r Cynulliad ac at bawb ledled Cymru. Maent yn arbennig o awyddus inni ymgysylltu â'r gwahanol sectorau yn ein cymunedau, nid yn unig y rhai sydd eisoes yn tueddu i gymryd rhan. O ran pobl ifanc, mae seneddau eraill eisoes yn edmygu ein gwasanaeth addysg. Wrth adeiladu ar y sail wych hon, sy'n ymgysylltu â mwy na 30,000 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, byddwn yn ceisio datblygu ein hystod o weithgareddau sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o waith y Cynulliad a'r cyfleoedd i gyfrannu at nodweddion Cymru a'i democratiaeth yn y dyfodol.

Beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni?

- mwy o gyhoeddusrwydd i waith yr Aelodau ac o dynnu sylw at fusnes y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn;
- sicrhau bod gwaith y Cynulliad yn cael ei lywio gan amrywiaeth eang o safbwyntiau;
- sicrhau bod gwybodaeth am fusnes ffurfiol y Cynulliad yn dod yn fwy a mwy hygyrch i bobl y tu allan;

- sicrhau bod arferion a pherfformiad y Cynulliad yn cael eu hystyried yn fodel y gall eraill yng nghymuned seneddol y DU a thramor elwa arni;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall gwaith y Cynulliad ac yn gallu chwarae rhan weithredol ynddo;
- ehangu'r gwaith rhagorol y mae'r Gwasanaeth Addysg ac Allgymorth yn ei gyflawni ar hyn o bryd, gan gynnwys y posibilrwydd o sefydlu senedd pobl ifanc i greu cyswllt clir rhwng pobl ifanc a changen ddemocrataidd cyfansoddiad Cymru; a
- sicrhau bod pobl ifanc ledled Cymru yn cymryd rhan a chael adborth cadarnhaol yn gyffredinol gan bobl ifanc, yr Aelodau a'r cyhoedd.

Gwneud y gorau o'n Hystâd, yn enwedig y Senedd, a'i nodwedd o fod y prif leoliad i fywyd cyhoeddus Cymru

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ystâd y Cynulliad a'i hadeiladau eiconig yn ased gwerthfawr a sylweddol y gallwn ei ddefnyddio i hyrwyddo'r Cynulliad a'i waith. Fel cartref democratiaeth Cymru, mae ein hystâd yn rhoi cyfle i'r Cynulliad ddenu aelodau'r cyhoedd ac ymgysylltu â hwy, ac i roi gwybod iddynt am ei waith. Mae ein gwaith o ofalu am ein hystâd hefyd yn rhoi cyfle mawr inni ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'r rhai sy'n ymweld â'n hystâd ac sy'n ei defnyddio, a sicrhau'r safonau uchaf o ran yr arfer gorau yng nghyswllt cynaliadwyedd.

Beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni?

- cyfleusterau gwell yn Nhŷ Hywel a'r Senedd, gan sicrhau bod digon o leoliadau o safon uchel i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau;
- gwelliannau i dderbynfeydd ein hadeiladau fel bod yr argraff gyntaf y mae pobl yn ei chael yn addas i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb;
- nifer gyson uchel o ymwelwyr sy'n rhoi adborth cadarnhaol;
- cyflwyno gwaith y Cynulliad mewn modd difyr i ymwelwyr fel eu bod yn deall mwy am Fusnes y Cynulliad erbyn iddynt adael;
- sicrhau bod yr ystâd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau mawr sy'n hybu Cymru ac sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad;
- cynyddu'r defnydd a wneir o leoliadau ar draws yr ystâd;
- defnyddio dulliau cyfathrebu a TGCh yn effeithiol ar draws yr ystâd;
- canfod cyfleoedd i gynhyrchu incwm, a nodi eu dichonoldeb; ac
- ymdrech bellach tuag at gyflawni ein targed o fod yn garbon niwtral erbyn 2015.

Sut y byddwn yn perfformio ac yn llwyddo

Mae perfformiad o safon uchel yn amlwg eisoes ar draws y sefydliad. Mae'r meysydd yr ydym wedi'u blaenoriaethu ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi wedi'u cynllunio i gynnal hynny, ac i sicrhau ein bod yn cwrdd â disgwyliadau'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd.

Mae'r modd yr ydym yn ymgymryd â'n swyddi hefyd yn bwysig iawn. Yn ein gwaith, bydd disgwyl i bawb ohonom:

- weithredu gan roi sylw llawn i'n cyfrifoldebau ym maes cydraddoldeb, gan barchu pawb a thrin pawb yn deg;
- cyflawni pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn yn bwylllog, ag arbenigedd proffesiynol ac ymdeimlad cryf o fod yn darparu gwasanaeth;
- pennu safonau uchel a chadw at ein gair;
- bod yn agored ac yn dryloyw, cyflwyno ein hunain i fod yn destun i'r prosesau craffu mwyaf dwys, a darparu tystiolaeth fesuradwy o'n llwyddiannau; a
- dangos ein hymrwymiad llwyr i ddemocratiaeth seneddol Cymru a'r ffaith ein bod yn ymfalchïo yn y Cynulliad.

Caiff Cynlluniau Gwasanaeth eu datblygu'n flynyddol sydd â chyswllt uniongyrchol â'r gwaith o gyflawni nodau strategol y Cynulliad. Maent yn cynnwys ystyried y risgiau o ran cyflawni amcanion yn ogystal â chyfleoedd i wella'r modd y darperir gwasanaethau drwy gydweithio â meysydd gwasanaeth eraill. Maent yn sail i ddatblygu'r broses o Adolygu Perfformiad a Datblygiad unigolion fel bod pawb yn deall sut y mae eu hamcanion yn rhan o nodau ac amcanion y sefydliad.

Cofnodi Perfformiad a Chostau

Yn ystod ei waith o graffu ar ein cyllideb, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Comisiwn gyhoeddi dangosyddion perfformiad fel y gall fod yn sicr bod ein cyllideb yn cael ei defnyddio'n ddoeth ac yn effeithiol. Cyn dechrau blwyddyn ariannol 2013-14, byddwn yn gofyn i'r Comisiwn gytuno ar fframwaith cofnodi perfformiad a chostau ac yn ei ddefnyddio i gyhoeddi ein canlyniadau yn fisol o fis Ebrill 2013. Bydd y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Buddsoddi yn monitro ein perfformiad yn ôl ein cynlluniau cyllidebol, gan gynnwys y rhaglen fuddsoddi.

Rheoli Risg

Caiff ein dull o reoli risg ei nodi yn y dogfennau ynghylch y Polisi Rheoli Risg a'r Broses Rheoli Risg. Mae'r gwaith o reoli risg yn broses ailadroddol, felly mae'r risgiau a statws y risgiau yn newid yn rheolaidd (hynny yw, yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i reoli'r risgiau a pha mor ddigonol yw'r rheolaethau neu'r cynlluniau wrth gefn sydd ar waith).

Mae'r holl fanylion, gan gynnwys y rheolaethau, i'w gweld yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar y fewnwyd. Mae'r fewnwyd hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am amryw o faterion sy'n ymwneud â chynllunio, y gyllideb a llywodraethu.

Chwefror 2013

Atodiad Un: Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16

Datganiad o Ddiben

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Nodau Strategol

– Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Mae'r Cynulliad mewn sefyllfa gyfansoddiadol newydd, a byddwn yn cynnig cefnogaeth briodol i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gynrychioli Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

– Dyma fydd nodweddion llwyddiant:

- enw da sy'n gwella drwy'r amser am waith craffu da a phroses ddeddfu agored a chadarn;
- ymdeimlad sydd wedi ymsefydlu'n gadarn o fod yn darparu gwasanaeth, sy'n arwain at gysylltiadau mwyfwy cryf ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff;
- darparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson i'r cyhoedd ym mhob agwedd ar ein gwaith.

– Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru

Byddwn yn creu amgylchedd sy'n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n hwyluso pobl i ymgysylltu â swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli'r Cynulliad. Byddwn yn ymgysylltu'n frwd ac eang, ac yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r ymgysylltiad hwnnw. Drwy weithio fel llysgennad i Gymru dros y byd, byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, a chwarae ein rhan yn natblygiad democratiaeth seneddol mewn gwledydd eraill dros y byd.

– Dyma fydd nodweddion llwyddiant:

- gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i bobl yng Nghymru sy'n dangos graddau a gwerth gwaith y Cynulliad/Aelodau'r Cynulliad, gan godi ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad a dealltwriaeth ohono, fel bod y Cynulliad yn aeddfedu o safbwynt y cyhoedd;
- gwybodaeth ac argraff well gan y cyhoedd yng nghyswllt y Cynulliad a llwyddiannau datganoli;
- llwyddo i sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn democratiaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau;
- gwaith cynhyrchiol gydag ystod ehangach o randdeiliaid e.e. drwy eu galluogi i ymwneud â phwyllgorau;

- cyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru a democratiaeth Cymru ar y llwyfan rhyngwladol drwy fod yn rhan o gyrff rhyngwladol perthnasol a phartneriaethau â sefydliadau allweddol sy'n canolbwyntio ar y safbwynt rhyngwladol;
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch yr arfer gorau yn rhyngwladol, a chyfrannu ato; a
- mynd ar drywydd themâu penodol, gan ddangos cryfder democratiaeth Cymru, gan gynnwys: cyfranogiad gan ddinasyddion; e-ddemocratiaeth, craffu'n effeithiol ar y Llywodraeth a democratiaeth gynaliadwy a thryloyw.

– **Defnyddio adnoddau'n ddoeth**

Byddwn yn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau llawn i weithredu'n effeithiol fel senedd sydd â phwerau deddfu newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn atgyfnerthu hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau drwy wneud defnydd da o arian y trethdalwr. Byddwn yn rheoli ein hadnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd fwy effeithlon a chan gynnig gwell gwerth am arian.

– **Dyma fydd nodweddion llwyddiant:**

- cyflawni manteision drwy brosiectau, gan gynnwys ffyrdd gwell o weithio yn y Cynulliad;
- adroddiadau Archwilio diamod ar Gyfrifon Blynnyddol y Comisiwn ac adroddiadau cadarnhaol i Gomisiwn y Cynulliad gan Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad;
- sicrwydd ynghylch ein defnydd o adnoddau ac arbedion gwerth am arian, a ddarperir drwy'r Rhaglen Archwilio Mewnol;
- tystiolaeth glir o werth am arian yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Atodiad Dau: Strategaeth Comisiwn y Cynulliad a'i Blaenoriaethau ar gyfer y Pedwerydd y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Nodau Strategol y Comisiwn ar gyfer 2011 - 2016

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf
Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru
Defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi

- Strategaeth TGCh y dyfodol, 2014 a thu hwnt
- Rhagoriaeth gwasanaethau a'u cyfuno i gefnogi Busnes y Cynulliad
- Gwasanaethau dwyieithog gwell
- Cynyddu'r graddau y mae pobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, yn ymwneud â gwaith y Cynulliad
- Gwneud y gorau o'n Hystâd, yn enwedig y Senedd, a'i nodwedd o fod y prif leoliad i fywyd cyhoeddus Cymru.

